# Nodyn Briffio: Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod

**Tîm Pysgodfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru.**

Mae ymrwymiad wedi'i wneud i lansio adolygiad llawn o faterion sy'n ymwneud ag adar sy'n bwyta pysgod yng Nghymru.

Rydym wedi cytuno ar aelodaeth grŵp cynghori allanol i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn:-

Afonydd Cymru; Gwarchod Eogiaid a Brithyllod Cymru; Ymddiriedolaeth Genweirio
Yr RSPB; Ymddiriedolaeth Adareg Prydain; Cymdeithas Adareg Cymru
CEFAS
Llywodraeth Cymru

Bydd cyfarfod cyntaf y grŵp ar 3 Gorffennaf, a bydd yn cael ei gadeirio gan Madeleine Havard, un o aelodau bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd y cylch gorchwyl yn cael ei lunio yn ystod y cyfarfod cyntaf ac yn cael ei ddosbarthu i'r grwpiau pysgodfeydd lleol pan fydd ar gael.

Diben y grŵp: proses a arweinir gan dystiolaeth i asesu pob mater sy'n ymwneud ag ysglyfaethu mewn afonydd a llynnoedd/pyllau dŵr yng Nghymru, gan gynnwys:

- Papur ar adolygiadau polisi yn yr Alban a Lloegr (gan gynnwys fframwaith cyfreithiol)
  Statws poblogaeth eogiaid, sewin ac adar sy'n bwyta pysgod yng Nghymru
- Monitro rhywogaethau eogiaid ac adar pysgysol yng Nghymru
  - Asesiadau adar
  - Asesiadau o stoc pysgod mudol llawn twf o deulu'r eog
  - Pysgod – enghreifftiau o fonitro pysgod ifanc
- Gweithdrefnau trwyddedu cyfredol ac effeithlonrwydd y dulliau a ddefnyddir i reoli adar yng Nghymru

- Disgwylir i'r grŵp orffen ei waith erbyn mis Mawrth.

**CAM GWEITHREDU: Gofynnir i aelodau grwpiau pysgodfeydd lleol wneud y canlynol:**

- **Nodi ffurfiad Grŵp Cynghori ar Adar sy'n Bwyta Pysgod Cyfoeth Naturiol Cymru**
- **Darparu unrhyw sylwadau ar gyfeiriad cyffredinol y gwaith a ddisgrifiwyd**

Bydd papur yn mynd i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf a bydd hwn ar gael ar dudalennau gwe bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.